Rhentu Doeth Cymru

Rent Smart Wales

Canllaw ar Gymeradwyo Cwrs ac Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant

Rhentu Doeth Cymru

Tymor yr Hydref 2017

Canllaw ar Gymeradwyo Cwrs ac Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant

Croeso i ganllaw Rhentu Doeth Cymru ar Gymeradwyo Cwrs ac Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant.

Nod y ddogfen hon yw rhoi arweiniad ar greu cyrsiau hyfforddi i Landlordiaid a/neu Asiantau y mae Rhentu Doeth Cymru'n eu cymeradwyo a rhoi gwybodaeth ar ddod yn Ddarparwr Hyfforddiant Awdurdodedig.

Mae'r canllaw hwn wedi'i rannu'n dair rhan.

Cymeradwyo Cyrsiau

- Cefndir
- Gofynion Cyrsiau Landlord
- Gofynion Cyrsiau Asiant
- Amodau Cymeradwyo Cwrs
- Dogfennau Ategol
- Ffi Cymeradwyo Cwrs

Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant

- Amodau Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant
- Dogfennau Ategol
- Ffi Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant

Archwiliad Rhentu Doeth Cymru

- Gofynion Monitro
- Amcanion Archwilio
- Cwmpas Archwiliadau
- Sgorau Sicrwydd

Canllaw ar Adnewyddu Cymeradwyaeth Cwrs ac Awdurdodiad Darparwr Hyfforddiant

- Adnewyddu

Os oes angen cymorth arnoch i lenwi'r ffurflenni neu ragor o wybodaeth am y broses ymgeisio, cysylltwch â'r Tîm Hyfforddi drwy ffonio 03000 133 344 neu e-bostio hyfforddiantrhentudoethcymru@caerdydd.gov.uk.

Cefndir

Yn Rhan 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/7/contents>, mae'n ofynnol i landlord unrhyw eiddo yng Nghymru a rentir ar denantiaeth sicr, byrddaliad sicr, neu denantiaeth reoledig gofrestru. Mae'n ofynnol i landlordiaid sy'n ymgymryd â thasgau gosod a rheoli eu heiddo rhent yng Nghymru wneud cais am drwydded. Does dim angen trwydded ar landlordiaid nad oes ganddynt ran yn y broses o roi tenantiaethau ar waith a rheoli eiddo rhent. Serch hynny, rhaid iddynt ddefnyddio asiant a chofrestru fel landlordiaid gan nodi enwi'r asiant wrth gofrestru. Mae cwblhau hyfforddiant cymeradwy yn un o'r gofynion trwyddedu i ddeiliaid trwydded. Dylai'r hyfforddiant hwn roi gwybodaeth berthnasol a chyfredol a chyfleoedd datblygu personol i landlordiaid ac asiantau i reoli tenantiaethau'n llwyddiannus ac yn unol â'r gyfraith, ac i ddarparu llety rhent sydd mewn cyflwr da.

Dan Reoliad 4 **Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddiant) (Cymru) 2015**, rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu nodi gofynion i Hyfforddiant (yn unol â 19(3)(a) Deddf Tai (Cymru) 2014.

Rhaid i hyfforddiant nodi:

a) ymrwymiadau statudol landlord a thenant;
b) y berthynas gontract rhwng landlord a thenant;
c) rôl asiant sy'n cyflawni gwaith gosod neu waith rheoli eiddo;
d) arfer gorau o ran gosod a rheoli anheddau sy'n destun tenantiaeth ddomestig, sy'n cael eu marchnata ar gyfer tenantiaeth ddomestig, neu sy'n cael eu cynnig yn rhan o un;
e) rôl landlord sy'n cyflawni gweithgareddau gosod neu weithgareddau rheoli eiddo;
f) unrhyw ofynion eraill o ran hyfforddiant y mae'n ofynnol eu cynnwys mewn cwrs hyfforddiant cymeradwy yn nhyb yr awdurdod trwyddedu.

Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cyrsiau i'w cymeradwyo. Wrth benderfynu ar geisiadau a gymeradwyir, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn asesu a yw cwrs yn bodloni'r gofynion sylfaenol. Mae'r ddogfen hon yn trafod gofynion sylfaenol cwrs **landlord** (fel y diffinnir dan adran 2(1) Deddf Tai (Cymru) 2014) a chwrs ar gyfer person sy'n gweithredu ar ran landlord (**asiant**) (fel y diffinnir yn adran 9 Deddf Tai (Cymru) 2014) at ddibenion trwyddedu.

Dan bob pennawd pwnc, dylai'r cwrs gyflawni Deilliannau Dysgu'r rhai sydd ar y cwrs. Nid ymrwymiadau statudol i'r rhai sydd ar y cwrs yn unig fydd hyn; dylai hefyd esbonio ymrwymiadau statudol y tenant ac arfer gorau cysylltiedig â'r maes. Dylai hyfforddiant gydymffurfio â'r Cod Ymarfer a luniodd Gweinidogion Cymru yn unol ag adran 40 Deddf Tai (Cymru) 2014.

Gofynion Cyrsiau Landlord

Rhaid i gyrsiau gyflwyno cynnwys ar **ofynion statudol a chontract** ac **arfer gorau** gan wneud y gwahaniaeth rhwng y ddau'n glir. Yn ogystal â hynny, rhaid i'r landlord ddeall ei rwymedigaethau, rhwymedigaethau'r tenantiaid, a rhwymedigaethau i asiantau pan fo landlord yn cyfarwyddo un.

Mae modd cyflwyno cynnwys y cwrs mewn unrhyw drefn neu mewn unrhyw nifer o fodiwlau, cyn belled â bod y deilliannau dysgu ehangach yn cael eu cyflawni. Wrth gyflawni cyrsiau drwy blatfform ar-lein, rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau bod cyrsiau'n rhyngweithiol a diddorol, a'u bod yn hwyluso amgylchedd sy'n ysgogi dysgu.

Bydd y broses asesu ar gyfer cymeradwyo cyrsiau yn ystyried a oes proses ddilysu ddigonol. Bydd Rhentu Doeth Cymru'n gofyn bod proses arholi gadarn ar waith yn rhan o brosesau dilysu dysgwyr sy'n dangos bod dealltwriaeth dda iawn o'r maes llafur a drafodir gan y dirprwyon ar y cwrs.

Mae'r cynnwys hwn yn berthnasol i unrhyw gwrs ar gyfer landlordiaid neu staff landlordiaid ('pobl gysylltiedig' yw'r diffiniad o'r rhain) y mae'n rhaid iddyn nhw gwblhau hyfforddiant trwyddedu dan y ddeddfwriaeth. Rhaid i chi sicrhau bod pob maes a restrir isod yn cael sylw yng nghynnwys eich cwrs.

Deddf Tai (Cymru) 2014	
Rhan 1	Trosolwg, Diben y Ddeddfwriaeth, Llywodraeth Cymru
Rhentu Doeth Cymru	Cofrestru
	Trwyddedu
	Amodau/Cod Ymarfer
	Person Addas a Phriodol
	Hyfforddiant
	Gorfodi
	Asiant (Rhentu Doeth Cymru)
	"Person Cysylltiedig" dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014

Perthnasau Allweddol	
Diffiniad a Chyfrifoldebau	Asiant, Landlord, Tenant
Ystyriaethau Cyn Tenantiaeth	
Caniatâd/Cyfarwyddiadau	Rhydd-ddeiliad
	Darparwr Morgais
	Cwmni Yswiriant
	Cofrestru/Trwydded Rhentu Doeth Cymru
Treth	Treth Incwm (CThEM)
	Treth Enillion Cyfalaf
	Treth Etifeddiaeth
	Treth Gyngor
	Treth Stamp
Buddsoddiad Eiddo	Buddsoddi mewn Eiddo
	Marchnad Sector Rhent Preifat
Lle Cewch Gyngor	Cymdeithasau Landlordiaid
	Cod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru
Dewisiadau Gosod	Hunan-Rheoli Landlordiaid
	Gosod Drwy Asiant yn Unig, Gosod a Rhentu
	Casglu, Rheolaeth Lawn
Yswiriant	Adeilad a Chynnwys
	Yswiriant Landlord
	Atebolrwydd Cyhoeddus (Contractwyr)
Hysbysebu/Marchnata	Ffioedd / Dadansoddiad a Disgrifiad (Canllawiau CMA)
Tystysgrifau Perfformiad Ynni (TPY)	Dangosyddion mewn Hysbysebion
	Tystysgrif yn ystod yr Ymweliad
Gwella Ynni	Newidiadau Deddfwriaethol – Cais Tenant
	Cydsyniad a Sgôr E fan lleiaf
Gwelliannau Eiddo	Trosi, Cynllunio a Rheoliadau Adeiladu
Sefydlu Tenantiaeth	
Mathau o Denantiaeth	Tenantiaeth Byrddaliol Sicr
	Sicr
	Tenantiaeth a Reoleiddir (Deddf Rhent 1977)
	Deddfwriaeth newydd: Deddf Rhentu Tai (Cymru) 2016
Ystyriaethau Tenantiaeth	Isosod a Dynodi
	Tenantiaeth ar y Cyd ac Unigol
	Olyniaeth a Hawliau Goroeswr
	Tenant Deddf Tai 1998
	Trwyddedau Rhentu
Cytundebau Tenantiaeth	Ysgrifenedig - Arfer Gorau
	Llafar
	Telerau Annheg

Fetio Tenantiaid	Cyfweliad a Geirdaon neu Wasanaeth Cyfeirio
	Gwarantwr
	Gwirio prawf adnabod, Statws Mewnfudo
Diogelu Gwybodaeth	Deddf Diogelu Data 1998
Blaendaliadau Tenantiaeth	Cynlluniau Diogelu Blaendal
	Rhestr Eiddo (Derbynebau)
	Cynlluniau Gwarant Bond
Gwahaniaethu Anghyfreithlon	Deddf Cydraddoldeb 2010
Gosod y Rhent	Cytundeb gyda'r Tenant
	Cymal Adolygu Rhent
	Pwyllgor Asesu Rhent
Rhestrau Stoc/Cofnod Cyflwr	Rhestr Stoc Wedi'i Pharatoi a'i Llofnodi
	Traul Resymol
Budd-dal Tai	Lwfans Tai Lleol (Presennol)
	Credyd Cynhwysol (Newydd)
Cyfleustodau	Pwy Sy'n Gyfrifol am Dalu
	Cofnod o Ddarlleniadau Mesurydd
	Rheoliadau Dŵr Cymru 2014 – Landlord TAP
Cyfrifoldebau ac Atebolrwydd Landlord	
Y Gyfraith – Statudol, Contract a	Deddf Landlord a Thenant 1985 – Cyfrifoldebau
	Telerau Ymhlyg a Thelerau Datganedig
System Sgorio Iechyd a Diogelwch Tai	Deddf Tai 2004
	Peryglon Cyffredin - 29 o Beryglon
	Gorfodi
Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch Allweddol	Rheoliadau Diogelwch Trydanol (1994)
	Rheoliadau Diogelwch Tân (FSO 2005)
	Legionella – Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
	Rheoliadau Asbestos (2012)
	Rheoliadau Diogelwch Nwy (1998)
	Dodrefn a Rheoliadau Diogelwch Dodrefn (1988)
	Ysmygu a Deddf Iechyd 2006
	Cyddwysiad / Tamprwydd a Llwydni
Tai Amlfeddiannaeth	Diffiniad Tŷ Amlfeddiannaeth
	Dyletswyddau Rheolwr Tŷ Amlfeddiannaeth - Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth 2006
	Trwyddedu - Deddf Tai 2006, Addas a Phriodol
	Methiant â Chydymffurfio – Troseddau
	Trwyddedu Gorfodol ac Ychwanegol
Trwyddedu Dewisol	Trosolwg Byr o'r Cynllun Trwyddedu Detholus
Cael Gwared â Gwastraff	Dyletswydd Gofal

Yn ystod y Denantiaeth	
Symud i Mewn	Gwybodaeth Allweddol, Cyfarwyddiadau Peiriannau
Ymweliadau Rheolaidd a Gwaith Cynnal a Chadw	Rhybudd 24 Awr, Yr Hawl i Fwynhad Didramgwydd (Y Gyfraith)
Gweithdrefnau mewn Argyfwng	Cyswllt mewn Argyfwng
	Mynediad mewn Argyfwng
Rhent	Casglu
	Llyfrau Rhent (Wythnosol)
	Adran 13 o Ddeddf Tai 1988
	Sbardunau Ôl-ddyledion Rhent
	Dyfarniad Hawliadau Bychain y Llys Sirol
Newid Telerau'r Denantiaeth	Deddf Telerau Newydd (Tai) 1988 Adran 6
Perthnasoedd Landlord/Tenant	Atal, Rheoli, Cyfryngu, Camau Cyfreithiol
Ymestyn/Adnewyddu	Tenantiaeth Fyrddaliol Sicr / Newydd Dreigl
Gwella Effeithlonrwydd Ynni	Hawliau, Tenantiaid, Grantiau a Chynlluniau
Cwynion	Ymateb Amserol
	Gwasanaeth Tribiwnlys Eiddo Preswyl
	Cynllun Unioni Camweddau (Ombwdsmon)
Dod â Thenantiaeth i Ben	
Meddiannu	Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Niwsans – Adran 8
	Ôl-ddyledion Rhent - Adran 8
	Adran 21
	Meddiannu Cyflym
	Gadael
	Troi Allan yn Anghyfreithlon ac Aflonyddu
Terfynu Tenantiaeth gan y Tenant	Tymor Penodol/Cyfnodol
	Tenantiaethau ar y Cyd - Rhybudd i Ymadael
Symud Allan	Cyfleustodau – Darlleniadau Mesurydd, Rhoi Gwybod i Ddŵr Cymru
	Treth Gyngor
	Rhestr Gynnwys
	Rhoi'r Blaendal yn ôl - Derbynebau, Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod
	Trosglwyddo Eiddo

Gofynion Cyrsiau Asiant

Rhaid i gyrsiau gyflwyno cynnwys ar ofynion statudol a chontract ac arfer gorau, gan wneud y gwahaniaeth rhwng pob un yn glir. Yn ogystal â hynny, rhaid i'r asiant ddeall ei ddyletswyddau i landlordiaid a thenantiaid, rhwymedigaethau tenant, rhwymedigaethau landlord a rôl asiantau yn y broses reoli a gosod.

Mae modd cyflwyno cynnwys y cwrs mewn unrhyw drefn neu mewn unrhyw nifer o fodiwlau, cyn belled â bod y deilliannau dysgu ehangach yn cael eu cyflawni. Wrth gyflawni cyrsiau drwy blatfform ar-lein, rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau bod cyrsiau'n rhyngweithiol a diddorol, a'u bod yn hwyluso amgylchedd sy'n ysgogi dysgu.

Bydd y broses asesu ar gyfer cymeradwyo cyrsiau yn ystyried a oes proses ddilysu ddigonol. Bydd Rhentu Doeth Cymru'n gofyn bod proses arholi gadarn ar waith yn rhan o brosesau dilysu sy'n dangos bod gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda iawn o'r maes llafur a drafodir.

Mae'r cynnwys hwn yn berthnasol i unrhyw gwrs ar gyfer landlordiaid a'u staff ('pobl gysylltiedig' yw'r diffiniad o'r rhain) y mae'n ofynnol iddyn nhw gwblhau hyfforddiant trwyddedu dan y ddeddfwriaeth. Rhaid i chi sicrhau bod pob maes a restrir isod yn cael sylw yng nghynnwys eich cwrs.

Deddf Tai (Cymru) 2014	
Rhan 1	Trosolwg, Diben y Ddeddfwriaeth, Llywodraeth Cymru
Rhentu Doeth Cymru	Cofrestru
	Trwyddedu
	Amodau
	Person Addas a Phriodol
	Hyfforddiant
	Gorfodi
Ystyriaethau Busnes Asiant	
Cytundebau	Ysgrifenedig
	Llafar
	Diddymu
	Egwyddorion Cyfraith Gontract
	Contractau Defnyddiwr
	Atwrneiaeth
	"Person Cysylltiedig" dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014
Telerau Busnes	Ffioedd

	Diogelu Arian Cleientiaid
	Cyfrifyddiaeth a Thrywydd Archwilio
	Dechrau a Chwblhau'r Broses o Ddod â Thenantiaeth i Ben
	Estopel
	Contract Cyflogwr
Amddiffyn Defnyddwyr	Deddf Hawliau'r Defnyddiwr 2015
	Rheoliadau Contractau Defnyddiwr 2013
	Gorfodi gan Awdurdod Lleol
Cyfraith Asiantaethau	Terfyn Awdurdod
	Y Tu Allan i'r Gyfraith
	Cyfraith Statudol a Chyffredin
	Deddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982 – Adran 13
	Awdurdod Llafar
	Dyletswydd Gofal a Sgiliau
Perthnasau Allweddol sy'n Effeithio ar y Busnes	
Pwy yw Pwy	Asiant, Landlord, Tenant
Dyletswyddau Asiant i Landlord	Ufudd-dod, Teyrngarwch, Atebolrwydd, Perfformiad, Datgelu
Dyletswyddau Landlord i Asiant	Taliadau, Indemniad, a Lien
Dyletswydd Asiant i Denant	Dideueddrwydd, Dyletswydd Gofal, Deddf Cydraddoldeb 2010
Ystyriaethau Cyn Tenantiaeth	
Caniatâd/Cyfarwyddiadau	Rhydd-ddeiliad
	Darparwr Morgais
	Cwmni Yswiriant
	Cofrestru/Trwyddedu Rhentu Doeth Cymru
Treth	Treth Incwm (CThEM)
	Treth Enillion Cyfalaf
	Treth Etifeddiaeth
	Treth Gyngor
Buddsoddiad Eiddo	Buddsoddi mewn Eiddo
	Marchnad y Sector Rhent Preifat
Ble Cewch Gyngor/Cynghori Cleientiaid	Cymdeithasau Landlordiaid
	Cymdeithasau Asiantau
	Cod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru
Dewisiadau Gosod	Hunan-Rheoli Landlordiaid
	Asiant Gosod yn Unig, Gosod a Rhentu

	Casglu, Rheoli Llawn
Yswiriant	Adeilad a Chynnwys
	Yswiriant Landlord
	Indemniad Proffesiynol
	Atebolrwydd Cyhoeddus (Contractwyr)
Hysbysebu/Marchnata	Ffioedd / Dadansoddiad a Disgrifiad (Canllawiau CMA)
	Cyfarwyddyd Cyfreithlon i Osod
Tystysgrif Perfformiad Ynni	Dangosyddion Hysbysebu
	Tystysgrif yn ystod yr Ymweliad
Gwella Ynni	Newidiadau Deddfwriaethol – Cais
	Cydsyniad a Sgôr E fan lleiaf
Gwelliannau Eiddo	Trosi, Cynllunio a Rheoliadau Adeiladu
Sefydlu Tenantiaeth	
Mathau o Denantiaeth	Tenantiaeth Byrddaliol Sicr
	Sicr
	Tenantiaeth a Reoleiddir (Deddf Rhent 1977)
	Deddfwriaeth newydd: Deddf Rhentu Tai (Cymru) 2016
Ystyriaethau Tenantiaeth	Isosod a Dynodi
	Tenantiaeth ar y Cyd ac Unigol
	Olyniaeth a Hawliau Goroeswr
	Tenant Deddf Tai 1998
	Trwyddedau Rhentu
Cytundebau Tenantiaeth	Ysgrifenedig - Arfer Gorau
	Llafar
	Telerau Annheg
Fetio Tenantiaid	Cyfweliad a Geirdaon neu Wasanaeth Cyfeirio
	Gwarantwr
	Gwirio Prawf Adnabod, Statws Mewnfudo
Diogelu Gwybodaeth	Deddf Diogelu Data 1998
Blaendaliadau Tenantiaeth	Cynlluniau Diogelu Blaendal
	Rhestr Eiddo (Derbynebau)
	Cynlluniau Gwarant Bond
Gwahaniaethu Anghyfreithlon	Deddf Cydraddoldeb 2010
Gosod y Rhent	Cytundeb gyda'r Tenant
	Cymal Adolygu Rhent
	Pwyllgor Asesu Rhent
Rhestrau Stoc/Cofnod Cyflwr	Rhestr Stoc Wedi'i Pharatoi a'i Llofnodi
	Traul Resymol
Budd-dal Tai	Lwfans Tai Lleol (Presennol)
	Credyd Cynhwysol (Newydd)
Cyfleustodau	Pwy Sy'n Gyfrifol am Dalu

	Cofnod o Ddarlleniadau Mesurydd
	Rheoliadau Dŵr Cymru 2014 – Landlord TAP
Cyfrifoldebau ac Atebolrwydd Asiant	
Y Gyfraith – Statudol, Contract a Chyffredin	Deddf Landlord a Thenant 1985 – Cyfrifoldebau Atgyweirio
	Telerau Ymhlyg a Thelerau Datganedig
System Sgorio Iechyd a Diogelwch Tai	Deddf Tai 2004
	Peryglon Cyffredin - 29 o Beryglon
	Gorfodi
Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch	Rheoliadau Diogelwch Trydanol (1994)
	Rheoliadau Diogelwch Tân (FSO 2005)
	Legionella – Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
	Rheoliadau Asbestos (2012)
	Rheoliadau Diogelwch Nwy (1998)
	Dodrefn a Rheoliadau Diogelwch Dodrefn (1988)
	Ysmygu a Deddf Iechyd 2016
	Cyddwysiad / Tamprwydd a Llwydni
Tai Amlfeddiannaeth	Diffiniad Tŷ Amlfeddiannaeth
	Dyletswyddau Rheolwr Tŷ Amlfeddiannaeth - Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth 2006
	Trwyddedu - Deddf Tai 2006, Addas a Phriodol
	Methiant â Chydymffurfio – Troseddau
	Trwyddedu Gorfodol ac Ychwanegol
Trwyddedu Detholgar	Trosolwg Byr o'r Cynllun Trwyddedu Detholgar
Ystyriaethau Ariannol ac Eraill	Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol
	Deddf Cyllid 1995
	Enillion Troseddu
	Gwyngalchu Arian
	Esgeulustod
Cael Gwared â Gwastraff	Dyletswydd Gofal
Yn ystod y Denantiaeth	
Symud i Mewn	Gwybodaeth Allweddol, Cyfarwyddiadau Peiriannau
Ymweliadau Rheolaidd a Gwaith Cynnal a Chadw	Rhybudd 24 Awr, Yr Hawl i Fwynhad Didramgwydd
Gweithdrefnau mewn Argyfwng	Cyswllt mewn Argyfwng
	Mynediad mewn Argyfwng
Rhent	Casglu
	Llyfrau Rhent (Wythnosol)
	Adran 13 o Ddeddf Tai 1988
	Sbardunau Ôl-ddyledion Rhent
	Dyfarniad Hawliadau Bychain y Llys Sirol

Newid Telerau'r Denantiaeth	Deddf Telerau Newydd (Tai) 1988 Adran 6
Perthnasoedd Landlord/Tenant	Atal, Rheoli, Cyfryngu, Camau Cyfreithiol
Ymestyn/Adnewyddu	Tenantiaeth Fyrddaliol Sicr / Newydd Dreigl
Gwella Effeithlonrwydd Ynni	Hawliau, Tenantiaid, Grantiau a Chynlluniau
Cwynion	Ymateb Amserol
	Gwasanaeth Tribiwnlys Eiddo Preswyl
	Cynllun Unioni Camweddau (Ombwdsmon)
Dod â Thenantiaeth i Ben	
Meddiannu	Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Niwsans – Adran 8
	Ôl-ddyledion Rhent – Adran 8
	Adran 21
	Meddiannu Cyflym
	Gadael
	Troi Allan yn Anghyfreithlon ac Aflonyddu
Terfynu Tenantiaeth gan y Tenant	Tymor Penodol/Cyfnodol
	Tenantiaethau ar y Cyd - Rhybudd i Ymadael
Symud Allan	Cyfleustodau – Darlleniadau Mesurydd, Rhoi Gwybod i
	Treth Gyngor
	Rhestr Gynnwys
	Rhoi'r Blaendal yn ôl - Derbynebau, Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod
	Trosglwyddo Eiddo

Amodau Cymeradwyo Cwrs

Mae Adran 6 o Reoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015 yn rhoi'r hawl i'r Awdurdod Trwyddedu ychwanegu neu ddileu amod neu amodau ar geisiadau am Gymeradwyaeth Gwrs. Yn rhan o'r Gymeradwyaeth Gwrs, rhaid i chi ddilyn set o amodau. Mae'r amodau wedi'u rhestru isod, ond gall Rhentu Doeth Cymru orfodi amodau ychwanegol. Caiff hyn ei asesu fesul achos.

Amodau Safonol Cymeradwyo Cwrs:

- Dim ond gan Ddarparwr Hyfforddiant Awdurdodedig, dan Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 y gellir cyflwyno'r cwrs hwn/y cyrsiau hyn.

- Rhaid defnyddio brand Rhentu Doeth Cymru yn unol â chanllawiau'r brand ar bob adeg.

- Rhaid i chi roi gwybod i Rentu Doeth Cymru os gwneir unrhyw newidiadau i ddull dilysu'r cwrs.

- Rhaid i chi roi gwybod i Rentu Doeth Cymru os gwneir unrhyw newidiadau i gynnwys y cwrs.

- Rhaid i'r maes llafur fod yn gyfredol a rhaid ei ddiwygio er mwyn iddo adlewyrchu unrhyw newidiadau cyfreithiol perthnasol sy'n effeithio ar Gymru cyn pen 28 diwrnod ar ôl y newid.

- Rhaid i dystysgrifau hyfforddiant i'r sawl sy'n cwblhau'r cwrs gydymffurfio â'r hyn y cytunir arno â Rhentu Doeth Cymru adeg eich cais. Rhaid i logo Landlord / Asiant cymeradwy Rhentu Doeth Cymru fod wedi'i nodi arni, neu os nad oes modd, y geiriau 'Cwrs a Gymeradwyir gan Rentu Doeth Cymru'. Rhaid i'r dystysgrif hyfforddi gynnwys yr ymwadiad canlynol **'Nid tystiolaeth yw'r dystysgrif hon y cafwyd trwydded gan Rentu Doeth Cymru; tystio bod y person wedi cwblhau hyfforddiant landlord neu asiant yn unig y mae."**

- Rhaid i dystysgrifau hyfforddiant a gyflwynir arddangos enw cyntaf a chyfenw llawn yr unigolyn fu ar y cwrs. Mae Rhentu Doeth Cymru yn cadw'r hawl i ofyn am i dystysgrif newydd gael ei chyflwyno os nad yw tystysgrif yn cynnwys enw cywir yr unigolyn fel y'i nodir yn y cais i Rentu Doeth Cymru am drwydded.

- Archwilydd Rhentu Doeth Cymru ddylai asesu cyrsiau hyfforddi yn y dosbarth o fewn y 3 mis cyntaf (neu yn ystod y cwrs) ar ôl cymeradwyo'r cwrs. Wedi asesu'r cwrs, caiff Rhentu Doeth Cymru wneud argymhellion y mae'n rhaid eu mabwysiadu er mwyn i'r cymeradwyo cwrs barhau.

- Pan fo modd, rhaid darparu mynediad i bobl anabl i hyfforddiant mewn dosbarth a rhaid i'r amgylchedd dysgu fod yn addas.

- Rhaid i chi / eich sefydliad gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.

Dogfennaeth Ategol Cymeradwyo Cwrs

Pan wnewch gais am Gymeradwyo Cwrs, mae'n ofynnol i chi gyflwyno set o ddogfennau a fydd yn ategu'ch cais. Dyma'r dogfennau gofynnol:

- Llenwi a llofnodi ffurflen cymeradwyo cwrs
- Maes llafur llawn y cwrs neu fynediad ato os cyflwynwyd y cwrs ar-lein
- Copi o gyflwyniadau a thaflenni a roddwyd i'r sawl sy'n mynd ar y cwrs
- Tri phapur prawf (o leiaf 20 o gwestiynau ar bob un) neu gronfa o 60 o gwestiynau ar gyfer profion ar-lein a'r marc pasio perthnasol (o leiaf 70%)*
- Tystysgrif Hyfforddiant Sampl
- Copi o ffurflen Adborth Dysgwyr

*Gwerthusir nifer y cwestiynau, y papurau prawf a'r marc pasio fesul achos.

Ffi Cymeradwyo Cwrs

Pan wnewch chi gais am Gymeradwyaeth Gwrs, mae'n ofynnol i chi anfon taliad gyda'ch cais. Ni fydd Rhentu Doeth Cymru yn prosesu ceisiadau heb dderbyn taliad. Mae modd talu am gymeradwyaeth gwrs â siec neu drwy gael anfoneb. £440 yw cost cymeradwyo'r cwrs.

Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant

Dan Reoliad 3 o Reoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddiant) (Cymru) 2015, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n nodi gofynion cyffredinol mewn perthynas â hyfforddiant (yn unol â 19(2)(b) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014). Mae paragraff (b) rheoliad 3 yn mynnu bod hyfforddiant yn cael ei gynnal gan Ddarparwr Hyfforddiant Awdurdodedig neu gan yr Awdurdod Trwyddedu.

Amodau Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru

Mae Adran 6 o **Reoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015** yn rhoi'r hawl i'r Awdurdod Trwyddedu ychwanegu neu ddileu amod neu amodau ar geisiadau Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant. Yn rhan o'ch cais am Awdurdodiad Hyfforddiant, rhaid i chi gadw at set o amodau safonol. Serch hynny, gall Rhentu Doeth Cymru orfodi amodau ychwanegol. Caiff hyn ei asesu fesul achos.

Amodau Safonol Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant:

- O gael eich awdurdodi, cewch chi a/neu eich cwmni gyflwyno'r cwrs/cyrsiau sydd wedi'u nodi ar eich ffurflen gais a chaiff y rhain eu cymeradwyo gan Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

- Dim ond dan enw'r darparwr cymeradwy sydd wedi'i nodi ar eich cais y cewch chi ddarparu'r cwrs/cyrsiau sydd wedi ei/eu (h)enwi ar eich cais. Nid yw'r awdurdod hyn yn caniatáu i sefydliad arall ddarparu'r cwrs/cyrsiau ar eich rhan heb ganiatâd datganedig gan Rentu Doeth Cymru.

- Rhaid defnyddio brand Rhentu Doeth Cymru yn unol â chanllawiau'r brand ar bob adeg.

- Rhaid i chi roi'r dull dilysu ar waith yn berffaith unol â gofynion Cymeradwyo Cwrs dan Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Rhaid i Rentu Doeth Cymru gytuno ar unrhyw newidiadau i'r dull dilysu cyn iddyn nhw gael eu rhoi ar waith.

- Rhaid i chi ddiweddaru sleidiau cyflwyniad a darpariaeth hyfforddiant er mwyn iddynt adlewyrchu unrhyw newidiadau sylweddol i faes llafur y Cwrs Cymeradwy ar unwaith.

- Rhaid i'r profiad a'r cymwysterau gofynnol sydd wedi'u nodi yn eich cais fod yn ofynnol i bob hyfforddwr y mae eich cwmni'n ei gyflogi i ddarparu cyrsiau Rhentu Doeth Cymru a gymeradwyir.

- Dim ond yr hyfforddwyr sydd wedi'u rhestru ar eich cais sydd wedi'u hawdurdodi i ddarparu cyrsiau hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru cymeradwy. Rhaid rhoi gwybod i Rentu Doeth Cymru os bydd unrhyw hyfforddwyr yn stopio darparu'r cwrs/cyrsiau. Cyn i hyfforddwyr newydd gael eu hychwanegu, rhaid i Rentu Doeth Cymru gymeradwyo hynny; hyd nes bod cymeradwyaeth wedi'i rhoi, ni chaiff hyfforddwyr newydd ddarparu cyrsiau.

- Rhaid i bob hyfforddwr (a phersonau cysylltiedig â'r sefydliad/cwmni) fod yn addas a phriodol. Os oes gan hyfforddwr neu unrhyw un cysylltiedig â nhw, yn ffurfiol ai peidio, euogfarnau heb eu treulio fel y rhai sydd wedi'u rhestru isod, rhaid i Rentu Doeth Cymru gael gwybod er mwyn i benderfyniad gael ei wneud o ran p'un a fydd hynny'n effeithio ar statws addas a phriodol yr unigolyn. Dyma restr o droseddau perthnasol:

(a) Unrhyw drosedd sy'n cynnwys:

- Twyll a mathau eraill o anonestrwydd;
- Trais, arfau tanio neu gyffuriau;
- Unrhyw drosedd yn Atodlen 3 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (troseddau sy'n destun gofynion hysbysu);

(b) Gwahaniaethu neu aflonyddu anghyfreithlon a ymarferir ar sail unrhyw Nodwedd a Ddiogelir yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, neu erlid person arall yn groes i'r Ddeddf, neu'n gysylltiedig a chynnal unrhyw fusnes.

(c) Torri unrhyw ddarpariaeth o'r gyfraith sy'n gysylltiedig â thai neu landlordiaid/tenantiaid, er enghraifft:

- Troi tenant allan yn anghyfreithlon; Cael gwrthod trwydded Tŷ Amlfeddiannaeth neu drwydded ddetholus dan Ddeddf Tai 2004;
- Cael diddymu trwydded am dorri unrhyw amodau yn Neddf Tai 2004;
- Bod yn destun Gorchymyn Rheoli dan Ddeddf Tai 2004; peidio â chydymffurfio â Rhybudd Tŷ (angen gwaith ac ati) gan awdurdod lleol;
- Bod yn destun cwynion gan denantiaid a ffynonellau eraill am achos difrifol o dor-amod neu sawl achos o dor-amod trwydded dan Ddeddf Tai 2004.

Yn ogystal â hynny, rhaid i chi a/neu eich sefydliad gael y cadarnhad angenrheidiol gan bob un o'ch hyfforddwyr sy'n landlordiaid eiddo yng Nghymru y byddan nhw'n cynnal eu heiddo'n unol â deddfwriaeth a Chod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru ym mhob achos.

- Rhaid i chi gyflwyno ffigurau bob chwarter gan gynnwys cyfanswm yr asiantau a/neu landlordiaid sydd wedi cwblhau'r cwrs/cyrsiau sydd wedi'u henwi ar eich cais. Rhaid i chi roi'r ffigurau chwarterol o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i Rentu Doeth Cymru wneud y cais.

- Rydych chi a/neu eich sefydliad yn cytuno i gael eich archwilio gan Rentu Doeth Cymru fel sy'n ofynnol yn adran 10 o Reoliadau Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddiant (Cymru) 2015 (mae copi wedi'i amgáu).

Dogfennau Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant Ategol

Pan wnewch gais am Awdurdodiad Darparwr Hyfforddiant, mae'n ofynnol i chi gyflwyno set o ddogfennau a fydd yn ategu'ch cais. Dyma'r dogfennau gofynnol:

- CV Llawn yr Hyfforddwr (gan gynnwys tystysgrifau hyfforddiant)
- Proses Fonitro'r Hyfforddwr
- Cod Ymddygiad/Ymarfer yr Hyfforddwr
- Polisi Diogelu Data
- Polisi Diddymu Cwrs/Cofrestriad
- Y Drefn Gwyno

Ffi Awdurdodi Hyfforddiant

Pan wnewch chi gais am Awdurdodi Cwrs mae'n ofynnol i chi anfon taliad gyda'ch cais. Ni fydd Rhentu Doeth Cymru yn prosesu ceisiadau heb dderbyn taliad. Mae modd talu am awdurdodiad hyfforddiant â siec neu drwy anfoneb. £685 yw'r ffi am awdurdodiad hyfforddiant.

Dan Reoliad 10 o **Reoliadau Rheoleiddio Tai Rhentu Preifat (Gofynion Hyfforddiant) (Cymru) 2015,** mae gan yr Awdurdod Trwyddedu'r hawl i fonitro darparwr hyfforddiant awdurdodedig. (1) Pan fo'r awdurdod trwyddedu'n gofyn amdano, rhaid i ddarparwr hyfforddiant awdurdodedig gyflwyno'r canlynol:

a) gwybodaeth am drefniadau gweinyddol y darparwr hyfforddiant awdurdodedig ac am y ffordd y cynhelir cyrsiau yn y modd y gallai bod ei hangen yn rhesymol ar yr awdurdod trwyddedu; a
b) cofnodion neu ddogfennau eraill (ym mha bynnag ffurf y'u cynhelir) a gedwir at ddibenion cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i'r darparwr hyfforddiant awdurdodedig gyflenwi gwybodaeth neu ddogfennau (fel y bo'n berthnasol) y gofynnir amdanyn nhw dan baragraff (1) cyn pen cyfnod allai fod yn ofynnol yn rhesymol gan yr awdurdod trwyddedu, neu cyn gynted â bod hynny'n ymarferol yn rhesymol.

Amcanion Archwilio

Amcan Rhentu Doeth Cymru drwy'r archwiliad yw cael sicrhad bod Darparwr Hyfforddiant Cymeradwy'n cynnal system hyfforddiant gadarn. Dylai'r rheoliadau sydd ar waith alluogi'r darparwr hyfforddiant i gydymffurfio â'r gyfraith, yr amodau yn y ceisiadau am Awdurdodiad Cwrs a'r Gymeradwyaeth Gwrs (yn achos Darparwyr Hyfforddiant) a'r Canllaw ar Gymeradwyaeth Gwrs ac Awdurdodiad Darparwr Hyfforddiant. Bydd hynny yn ei dro'n sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Tai (Cymru) 2014. Ble y tybir y gellir gwneud gwelliannau, rhoddir gwybod am hynny i'r darparwr, fel bod modd gwella rheoliadau.

Cwmpas Archwiliadau

Bydd cwmpas yr archwiliad yn cynnwys adolygu'r canlynol:

1) Prosesau, polisïau a gweithdrefnau er mwyn ategu'r gwaith o reoli'r system hyfforddiant;
2) Cynnwys y cwrs - a ddiffinnir yng Ngofynion Cwrs Landlord a/neu Asiant Rhentu Doeth Cymru (uchod);
3) Darparu hyfforddiant dosbarth (os yw'n berthnasol);
4) Darparu hyfforddiant dosbarth (os yw'n berthnasol);
5) Cod ymddygiad darparwyr hyfforddiant (gan gynnwys monitro hyfforddwyr);
6) Dulliau dilysu cwblhau cyrsiau;
7) Monitro'r system perfformiad/hyfforddiant.

Sgorau Dibynadwyedd

Nod Sgorau Dibynadwyedd Rhentu Doeth Cymru yw gwireddu lefel o sicrwydd bod y darparwr hyfforddiant yn cydymffurfio â'r meini prawf archwilio.

Dibynadwyedd Uchel – Mae rheolaeth yn gadarn ym mhob maes perthnasol er mwyn galluogi <enw'r sefydliad> i gydymffurfio ag amodau Awdurdodi Darparwr Hyfforddiant a/neu Gymeradwyo Cwrs gan Rentu Doeth Cymru. Dilynir y 'Cynnwys Hyfforddiant Isaf mewn Cyrsiau Trwyddedu Cymeradwy' yn llawn. Nid oes meysydd risg sylweddol a dyfernir **Dibynadwyedd Uchel.** Efallai bod angen rhoi camau risg isel ar waith o fewn yr amserlen briodol. Mae hefyd yn bosibl gweld arfer gorau mewn meysydd allweddol o'r archwiliad.

Dibynadwyedd Digonol – Mae rheolaeth ar waith ym mhob maes perthnasol sy'n galluogi <enw'r sefydliad> i gydymffurfio ag amodau Awdurdodi Darparwr Hyfforddiant a/neu Gymeradwyo Cwrs gan Rentu Doeth Cymru. Dilynir y 'Cynnwys Hyfforddiant Isaf mewn Cyrsiau Trwyddedu Cymeradwy'. Dyfernir **Dibynadwyedd Digonol,** ond mae meysydd risg posibl y mae angen mynd i'r afael â nhw o fewn amserlen briodol.

Dibynadwyedd Cyfyngedig – Mae rheolaeth ar waith i raddau amrywiol, ond oherwydd bylchau y daethpwyd o hyd iddyn nhw, nid yw'r amodau Awdurdodi Darparwr Hyfforddiant a/neu Gymeradwyo Cwrs gan Rentu Doeth Cymru'n cael eu dilyn yn ddigonol. Mae'r ddarpariaeth hyfforddiant felly'n agored i risg a **Dibynadwyedd Cyfyngedig** yn unig a ddyfernir. Mae angen mynd i'r afael ag unrhyw faes risg drwy gyflwyno dulliau rheoli a/neu wella dulliau rheoli presennol o fewn amserlen briodol er mwyn galluogi <name of organisation> i barhau i fod yn ddarparwr hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo gan Rentu Doeth Cymru.

Dim dibynadwyedd – Tybir bod dulliau rheoli'n annigonol ac nad ydynt yn ei gwneud yn bosibl cydymffurfio ag amodau allweddol Awdurdodi Darparwr Hyfforddiant a/neu Gymeradwyo Cwrs Rhentu Doeth Cymru. Does **Dim Dibynadwyedd** oherwydd y meysydd risg sylweddol. Mae angen gwella'r dulliau rheoli **ar unwaith** er mwyn galluogi <name of organisation> i barhau i fod yn ddarparwr hyfforddiant y mae Rhentu Doeth Cymru wedi'i gymeradwyo.

Mae modd cael copi o **Fframwaith a Chanllawiau Archwilio Awdurdodi a Chymeradwyo Hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru** drwy gysylltu â'r tîm hyfforddi ar 03000 133 344 neu HyfforddiantRhentuDoethCymru@caerdydd.gov.uk

Adnewyddu

Mae cymeradwyaeth gwrs ac Awdurdodiad Darparwr Hyfforddiant yn ddilys am **ddwy flynedd.** Ar ddiwedd y cyfnod cymeradwyo, rhaid i Ddarparwyr Hyfforddiant Allanol adnewyddu eu cymeradwyaeth gwrs a'u hawdurdodiad darparwr hyfforddiant.

Yn rhan o'r broses cymeradwyo cwrs ac awdurdodi darparwr hyfforddiant, rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cais newydd a dogfennau ategol yn unol â'r adrannau uchod; Cymeradwyo Cwrs ac Awdurdodi Darparwr Hyfforddiant.

Bydd Rhentu Doeth Cymru yn adolygu'r Canllaw ar Gymeradwyo Cyrsiau ac Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant yn flynyddol.